

Polisi Cynllunio Cymru

Nodyn Cyngor Technegol

16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Ionawr 2009

Mae'r ddogfen hon yn un mewn cyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (Cymru) (TANs) sy'n cydategu "Polisi Cynllunio Cymru".

Mae rhagor o wybodaeth ar gael oddi wrth yr Adran Gynllunio, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, yn Planning.Division@Wales.gsi.gov.uk, neu drwy ffonio 029 2082 3585.

Mae copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn ar gael yn rhad ac am ddim oddi wrth:

Y Ganolfan Gyhoeddiadau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: **029 2082 3683**
E-bost: **assembly-publications@wales.gsi.gov.uk**

Gwnaed y llun ar y clawr o ddata Landsat
(is-goch lliw gweladwy/bron yn weladwy)
ac fe'i cafwyd gan Infoterraglobal.com.



ISBN: 978 0 7504 4792 8
CMK-22-01-128
© Hawlfraint y Goron Ionawr 2009
D2170809

CYNNWYS

Tudalen

1.	Cyflwyniad	
	Pwrpas a Chwmpas y Canllawiau	1
	Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol	1
2.	Asesiad Mannau Agored	
	Gosod Safonau Lleol	7
	Ffynonellau Gwybodaeth Waelodin	9
	Y Camau Paratoi Allweddol	11
3.	Cynlluniau Datblygu	
	Cynlluniau Datblygu Lleol	13
	Amddiffyn a Gwella'r Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden a'r Mannau Agored Presennol	13
	Cynllunio ar gyfer Mannau Agored a Chyfleusterau Hamdden Newydd	16
	Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden Mawr	17
	Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc	18
	Cerbydau Hamdden Oddi-ar-y-ffordd	19
	Rhandiroedd Garddio	20
	Hamdden Ddyfrol	21
	Marinas	22
	Cyrsiau Golff	22
	Mynwentydd a Thir o Amgylch Eglwysi	22
	Cefn Gwlad	23
	Hygyrchedd a Hawliau Tramwy	23
4.	Rheoli Datblygu	
	Dylunio	25
	Sŵn	25
	Llifoleuo	26
	Hygyrchedd	26
	Rheoli a Chynnal	27
	Amodau Cynllunio a Rhwymedigaethau Cynllunio	27
	Tir Awdurdod Lleol	28

5.	Diddymiad	29
6.	Atodiadau	
	A. Man Agored	30
	B. Teipoleg Mannau Agored	31
	C. Safonau Meincnod y Gymdeithas Meysydd Chwarae Genedlaethol/ Fields in Trust	32

1. Cyflwyniad

Pwrpas a Chwmpas y Canllawiau

1.1 Dylid darllen y Nodyn Cyngor Technegol (TAN) hwn ar y cyd â 'Polisi Cynllunio Cymru' (PPW) 2002, sy'n nodi polisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad). Rhyngddynt, mae PPW, Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, Datganiadau Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog (MIPPS), y Nodiadau Cyngor Technegol a'r cylchlythyrau yn nodi'r polisi cynllunio cenedlaethol. Dylai awdurdodau cynllunio lleol Cymru roi sylw i'r polisi cynllunio cenedlaethol wrth baratoi eu cynlluniau datblygu. Gall y polisi cenedlaethol fod yn berthnasol wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio unigol, ac ystyrir y polisi cenedlaethol gan Lywodraeth y Cynulliad a chan Arolygwyr Cynllunio wrth benderfynu ar apelau a'r ceisiadau cynllunio a elwir i mewn. Mae'r TAN hwn yn darparu canllawiau technegol i ategu'r polisi a bennir yn PPW. Mae'n cynghori ynghylch rôl y system gynllunio o ddarparu ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden a manau agored anffurfiol, ac o amddiffyn cyfleusterau a manau agored mewn ardaloedd trefol a gwledig yng Nghymru.

1.2. Mae'r dogfennau a restrir ar ymyl y ddalen yn darparu gwybodaeth y dylid ei darllen ar y cyd â'r TAN.

Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

1.3 'Cymru'n Un-Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru' (Mehefin 2007), yw'r ddogfen sy'n nodi strategaeth drosfwaol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gweithredu i gyflwyno newid yng Nghymru. Mae'n cydnabod nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn ddigon gweithgar yn gorfforol i gael budd i'w hiechyd. Mae'n derbyn bod gweithgarwch corfforol yn llesol i iechyd, yn darparu ar gyfer creu llwybr o amgylch arfordir Cymru gyfan, ac yn annog pawb i gymryd rhan mewn chwaraeon, gweithgarwch corfforol (yn enwedig beicio a cherdded) a mwynhau'r amgylchedd naturiol. Mae'n annog cadw meysydd chwarae ysgolion er mwyn datblygu cyfleoedd i ysgolion a cholegau gydweithio â chlybiau chwaraeon lleol i fuddsoddi mewn hyfforddiant chwaraeon. Yn ogystal, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio meithrin ymdeimlad o 'berchnogaeth gyhoeddus' mewn perthynas â chefn gwlad, ac yn cydnabod nad yw'r grwpiau sydd wedi eu hallgáu yn gymdeithasol yn manteisio ar hyn o bryd ar y buddion sydd ar gael yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac o ran iechyd.

'Cymru'n Un - Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru' Llywodraeth Cynulliad Cymru (Mehefin 2007)

'Bwyd a Ffitrwydd - Hybu Bwyta'n Iach a Gweithgarwch Corfforol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru - Cynllun Gweithredu 5 Mlynedd' Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2006)

1.4 Yn 'Pobl, Lleoedd, Dyfodol - Diweddariad 2008 o Gynllun Gofodol Cymru' (Gorffennaf 2008) nodir polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad mewn cyd-destun gofodol, sy'n cynnwys creu cymunedau cynaliadwy a hygyrchedd cynaliadwy. Mae'n cydnabod bod ansawdd yr amgylchedd yn fater o bwys sylfaenol, yn nodi gweithredoedd ar gyfer diogelu neu wella ardaloedd trefol a gwledig ac yn darparu cyd-destun a chyfeiriad i'r Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) a baratoir gan awdurdodau cynllunio lleol.

'Pobl, Lleoedd, Dyfodol - Diweddariad 2008 o Gynllun Gofodol Cymru' Llywodraeth Cynulliad Cymru (Gorffennaf 2008)

1.5 Y Diweddariad uchod sy'n cysoni Cynllun Gofodol Cymru 2004 â 'Cymru'n Un' ac yn rhoi statws i'r gwaith Ardal sydd wedi ei gyflawni er pan baratowyd y cynllun gyntaf. Cydnabyddir bod ein hamgylchedd yn sylfaenol i ansawdd bywyd, a bod ei ddiogelu a'i adfywio yn hanfodol ar gyfer iechyd a lles yn ogystal â chyfleoedd economaidd. Mae'r Diweddariad yn cydnabod bod rhaid rhoi sylw i'r newid yn yr hinsawdd os ydym am osgoi ei ganlyniadau, a bod hynny'n rhoi cyfle inni ailfeddwl am ein ffordd o fyw a gweithio, annog rhagor o gerdded a beicio yn ein bywydau beunyddiol, darparu manau agored diogel a glân, a mwy o gyfleoedd i fwynhau bywyd gwyllt, a gwella'n dull o reoli ansawdd yr aer, gwastraff, priddoedd a dŵr.

1.6 Yn 'Dringo'n Uwch: Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol' (Ionawr 2005) pennir y strategaeth hirdymor ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru yn ystod yr ugain mlynedd nesaf. Diffinnir Chwaraeon gan Gyngor Ewrop fel gweithgarwch corfforol sydd, trwy gyfranogi ynddo yn achlysurol neu'n drefnedig, yn amcanu i fynegi neu wella ffitrwydd a lles corfforol, ffurfio perthnasau cymdeithasol, neu sicrhau canlyniadau mewn cystadleuaeth ar bob lefel. Diffinnir Hamdden Egniïol fel gweithgarwch corfforol a gyflawnir yn ystod amser hamdden ac yn cynnwys gweithgareddau megis dawnsio, aerobeg neu gerdded yn egniïol.

'Dringo'n Uwch: Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol' (Ionawr 2005)

Pwrpas y strategaeth yw sicrhau

- Cymru egniïol, iach, gynhwysol, lle mae chwaraeon, gweithgarwch corfforol a hamdden egniïol yn rhoi llwyfan cyffredin ar gyfer cymryd rhan, cael hwyl a llwyddo, sy'n clymu ynghyd gymunedau a'r genedl, a lle mae amgylchedd eithriadol Cymru yn cael ei defnyddio'n gynaliadwy i wella ein hyder ynom ein hunain a'n lle yn y byd.

1.7 Mae goblygiadau i 'Dringo'n Uwch' o ran cynllunio defnydd tir yn ofodol ar y lefelau cenedlaethol a lleol. Yn benodol, mae'n cynnwys targedau ar gyfer 2025:

- Bydd y ganran o'r bobl yng Nghymru a fydd yn defnyddio'r amgylchedd naturiol ar gyfer gweithgareddau awyr agored wedi cynyddu o 36% i 60%
- Bydd gan 95% o bobl Cymru lwybr troed neu lwybr beiciau o fewn pellter taith 10 munud ar droed
- Ni ddylai neb fod yn byw mwy na phellter taith o 6 munud (300 metr) ar droed o'r man gwyrdd agored naturiol agosaf
- Bydd gan bob cyflogai sector cyhoeddus a 75% o'r holl gyflogeion eraill fynediad at gyfleusterau chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn y gweithle, neu o fewn pellter taith o 10 munud ar droed o'r gweithle.

1.8 Trwy annog ffyrdd iachach o fyw, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gobeithio gwella iechyd a lles pobl Cymru, gan gynnwys pob hŷn, rhai sydd ag anableddau, plant a phobl ifanc. Ei nod yw rhoi sylw i anghydraddoldebau iechyd trwy annog pawb i fabwysiadu ffyrdd iachach o fyw a sicrhau mynediad at wasanaethau yn lleol, gan gynnwys annog beicio a cherdded.

1.9 Mae anghenion hamdden pobl ifanc yn flaenoriaeth, yn ogystal â gwella lefelau gweithgarwch corfforol a'r mynediad at gyfleusterau o fewn a thu allan i'r ysgolion. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol chwarae i ddatblygiad corfforol, cymdeithasol, meddyliol, emosiynol a chreadigol plant. Yn ei **'Pholisi Chwarae'** (Hydref 2002) ac yng **'Nghynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae'** (Chwefror 2006), mae'n amcanu i greu amgylchedd a fydd yn hyrwyddo chwarae ymhlith plant, ac yn cynnal strategaeth genedlaethol i ddarparu ar gyfer eu hanghenion chwarae. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau mynediad i amgylcheddau cyfoethog a symbylol lle y gall pob plentyn chwarae yn rhwydd. Mae'n cydnabod bod chwarae yn rhan annatod o iechyd a lles plant a phobl ifanc, sy'n ategu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Cydnabyddir hefyd bod darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol yn gymorth i ymateb i faterion iechyd a lles ehangach, yn enwedig gordewdra, a pho agosaf at gartref plentyn y darperir man chwarae, mwyaf tebygol ydyw y bydd y plentyn yn ei ddefnyddio.

'Polisi Chwarae' Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002)

'Chwarae yng Nghymru: Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae' Llywodraeth Cynulliad Cymru (Chwefror 2006)

1.10 Yn Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth y Cynulliad **'Dyfodol Teg i'n Plant'**, (2005) nodir cynigion a gosodir targedau a cherrig milltir trawsbynciol i fonitro'r cynnydd tuag at ddileu tlodi plant yng Nghymru erbyn 2020. Mae'r gweithredu cynnar yn cynnwys darparu gweithgareddau a chyfleoedd chwarae yn ystod gwyliau'r haf.

'Dyfodol Teg i'n Plant' Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005)

1.11 Mae'r amgylcheddau naturiol ac adeiledig yng Nghymru yn adnodd gwerthfawr ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden, ac mae angen eu rheoli yn effeithiol er mwyn sicrhau y'u defnyddir yn gynaliadwy, yn enwedig yng ngoleuni'r targedau a osodir yn **'Dringo'n Uwch'**.

1.12 Rhyngddynt, mae Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn gorchuddio 25% o arwynebedd tir Cymru. Ynghyd â'r Parciau Gwledig, mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd arbennig o bwysig ar gyfer hamdden yn yr awyr agored. Ym marn Llywodraeth y Cynulliad dylai'r Parciau Cenedlaethol barhau i gefnogi amrediad eang o gyfleoedd, a thrwy hynny wella i'r eithaf eu gallu i gyflawni amcanion cynhwysiant cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad. Lle bynnag y bo gwrthdaro rhwng cadwraeth a hyrwyddo mwynhad y cyhoedd, mae dyletswydd ar Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i roi blaenoriaeth i gadwraeth eu hardaloedd.

'Datganiad Polisi ar gyfer y Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru' Llywodraeth Cynulliad Cymru (Mawrth 2007)

1.13 Un o ddyletswyddau Llywodraeth y Cynulliad yw hyrwyddo datblygu cynaliadwy, sy'n cydnabod cyd-ddibyniaeth y systemau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Nodir ei strategaeth hirdymor i amddiffyn a gwella'r amgylchedd yn **'Strategaeth Amgylcheddol Cymru'** (2006). Mae'r Strategaeth yn datgan y dylai fod gan bob cymuned amgylchedd adeiledig o ansawdd uchel sydd wedi ei gynllunio a'i gynnal yn dda, sy'n darparu mynediad i fannau gwyrdd a lleoedd hamdden ac yn cynnal bioamrywiaeth. Cydnabyddir y gall amgylcheddau o ansawdd gwael, adeiladau a mannau cyhoeddus dirywiedig, a phrinder parciau a mannau gwyrdd, gael effaith andwyol ar ansawdd ein bywydau ac ar ein hiechyd a'n lles. Cydnabyddir hefyd mai yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig, yn aml, y mae cyflwr yr amgylchedd lleol waethaf. Yn y **'Cynllun Gweithredu Cyntaf'** nodir y gweithredu sy'n ofynnol er mwyn sicrhau canlyniadau cynnar. Mae'r **'Ail Gynllun Gweithredu'** (2008), yn ddogfen fwy strategol, sy'n canolbwyntio ar themâu detholedig ac yn darparu sail ar gyfer gweithredu hyd at 2011.

'Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru' Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006)

'Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru: y Cynllun Gweithredu Cyntaf' Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007)

'Ail Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol' Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008)

1.14 Canolbwyntir yn y Strategaeth ar wella'r amgylchedd adeiledig a naturiol ac ar annog darparu a chadw mannau gwyrdd yn yr ardaloedd trefol.

1.15 Mae'r Strategaeth yn rhagweld y bydd nifer cynyddol o bobl yn cerdded a beicio ac yn defnyddio'r amgylchedd naturiol at ddibenion gweithgarwch corfforol a phleser. Canolbwyntir ar hwyluso cerdded mewn ardaloedd trefol ac ar wella mynediad i gefn gwlad ac i'r arfordir. Yn yr ardaloedd sensitif, mae'n cydnabod hwyrach y bydd angen rheoli'r niferoedd o bobl a'r dulliau teithio, rhag amharu ar fwynhad y defnyddwyr ac achosi dirywiad yn ansawdd yr ardaloedd. Wrth hyrwyddo cerdded a beicio, mae'r Strategaeth yn ymgorffori egwyddorion 'Strategaeth Cerdded a Seiclo' (2003) Llywodraeth y Cynulliad a oedd â'r nod o godi lefelau'r ddau weithgarwch trwy ddarparu cyfleusterau, a'u hyrwyddo a'u hadlewyrchu mewn polisïau a chanllawiau, a hefyd yn y CDLlau.

1.16 Nod y TAN hwn yw integreiddio ymhellach y cysylltiadau rhwng iechyd a lles, chwaraeon a gweithgarwch hamdden a datblygu cynaliadwy yng Nghymru, trwy ddatblygu canllawiau ar gynllunio defnydd tir yn unol â'r polisïau a nodir yn PPW. Yn y TAN drwyddo draw, dylid dehongli cyfeiriadau at hamdden fel pe baent yn cynnwys chwarae plant.

'Newid Gêr: Strategaeth Twristiaeth Beicio i Gymru' Llywodraeth Cynulliad Cymru/Croeso Cymru, (2003 dan adolygiad 2008)

'Strategaeth Cerdded a Seiclo i Gymru' Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003)

'Polisi Cynllunio Cymru' Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002)

2.0 Asesiad Mannau Agored

2.1 O dan PPW mae'n ofynnol bod awdurdodau cynllunio lleol yn darparu fframwaith ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden mewn lleoliadau priodol, y dylent fod yn sensitif i anghenion y defnyddwyr, yn ddeniadol, wedi eu dylunio a'u cynnal yn dda, ac yn ddiogel a hygyrch i bawb. Mae PPW hefyd yn cyfeirio at yr angen i'r system gynllunio sicrhau y dyrennir adnoddau tir a dŵr digonol ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden ffurfiol ac anffurfiol.

2.2 Y ffordd orau i gyrraedd yr amcanion a nodir yn PPW yw trwy gynnal asesiadau o'r anghenion lleol ac archwiliadau o'r ddarpariaeth bresennol. O'u cymryd gyda'i gilydd, mae'r asesiadau hyn yn ffurfio Asesiad Mannau Agored y dylid ei ddefnyddio, ymhlith dibenion eraill, i oleuo'r gwaith o baratoi, monitro ac adolygu polisiâu CDLI. Gall yr wybodaeth o asesiadau o'r fath fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer paratoi Strategaethau Mannau Agored corfforaethol a Strategaethau Cymunedol, lle y gellir rhoi sylw i faterion amgylcheddol, cymdeithasol ac iechyd ehangach.

2.3 Mewn ymchwil a wnaed ar ran Llywodraeth y Cynulliad ystyriwyd y rôl a gyflawnir gan yr Asesiadau Mannau Agored o fewn cynllunio, a sut y gellir eu cynnal mewn ffordd sy'n darparu gwybodaeth o ansawdd cyson er mwyn rhoi sylw i anghenion cymunedau o ran chwaraeon, hamdden a manau agored.

2.4 Dylai'r Asesiad Mannau Agored a'r polisiâu CDLI ddarparu sylfaen ar gyfer Strategaeth Mannau Agored, a baratoir ar y cyd ag adrannau eraill ym mhob awdurdod lleol a chan gynnwys o'r dechreuad randdeiliaid megis y cynghorau cymuned a thref. Bydd angen i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru gydweithredu ag awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a thref a rhanddeiliaid eraill yn eu hardaloedd wrth baratoi asesiadau o'r fath.

2.5 Dylai'r Asesiad Mannau Agored roi sylw i bob math o ddarpariaeth manau agored (gweler y deipoleg yn Atodiad B). Diffinnir 'man agored' yn Atodiad A fel pob gofod agored sydd o werth cyhoeddus, gan gynnwys tir ac arwynebeddau o ddŵr megis afonydd, camlesi, llynnoedd, cronfeydd dŵr a basnau dociau anarferedig sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer chwaraeon, hamdden a thwristiaeth.

2.6 Er mwyn annog cerdded, beicio, marchogaeth ceffylau a dulliau teithio carbon isel eraill sydd o gymorth i liniaru'r newid yn yr hinsawdd, dylid rhoi sylw penodol i gyfleoedd i ddefnyddio hen reilffyrdd a llwybrau camlesi anarferedig,

'Research on Public Open Space Audits' Nathaniel Lichfield a'i Bartneriaid ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru (Tachwedd 2007)

ar gyfer llwybrau lleol a llwybrau pellter hir, a gwella ac estyn coridorau o ofod agored llinol, gan gynnwys llwybrau cylchol, er mwyn lleihau'r defnydd o'r ffyrdd. Dylid ymchwilio hefyd i gyfleoedd i gyfuno a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd hamdden a thwristiaeth, er enghraifft mewn perthynas â dyfrffyrdd mewndirol, a all ddarparu cysylltiadau gwastad a hygyrch o fewn a rhwng ardaloedd trefol a gwledig. Trwy ddylunio yn sensitif, dylai fod modd creu llwybrau deniadol a diogel, a fydd yn annog pobl i'w defnyddio.

Gosod Safonau Lleol

2.7 Nid yw PPW yn rhagnodi safonau darpariaeth penodol. Yn hytrach, dylid seilio'r rhain ar ganlyniadau proses yr Aseiad Mannau Agored. Dylai strategaeth ddeallus geisio gwella'r gyfatebiaeth rhwng y lefel bresennol o ddarpariaeth a'r patrymau galw tebygol, yn gyfredol ac yn y dyfodol. Dylai ganiatáu i'r awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisiau a safonau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn adlewyrchu'r nodweddion cymdeithasol, economaidd, demograffig a daearyddol lleol. Dylai'r safonau a gynhrychir yn lleol gael eu seilio ar dystiolaeth gadarn sy'n tarddu o'r Aseiad Mannau Agored, a dylai gynnwys:

- Elfennau meintiol (sef a oes angen darpariaeth newydd ar gyfer yr ardal)
- Cydran ansoddol (y gellir mesur yr angen gyferbyn â hi, gan gynnwys yr angen i wella'r cyfleusterau cyfredol)
- Cydran hygyrchedd (pa mor hygyrch yw'r ddarpariaeth mewn gwirionedd i'r gymuned leol)

2.8 Mae'n debygol y bydd y patrymau darpariaeth hamdden a'r galw yn gwahaniaethu rhwng ardaloedd trefol a gwledig, a hefyd mewn ardaloedd sy'n denu twristiaid ac yn amrywio yn dymhorol o ran eu poblogaethau. Trwy ymgymryd ag aseidiadau yn lleol a datblygu strategaethau lleol unigryw gellir datblygu polisiau a fydd yn berthnasol mewn gwahanol gyd-destunau, ac a fydd yn ymdopi'n well yn lleol â'r materion sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd.

2.9 Mae Fields in Trust (FIT) sef y Gymdeithas Meysydd Chwarae Genedlaethol gynt, wedi paratoi 'Safonau Meincnod' ar gyfer chwaraeon a chwarae yn yr awyr agored, sy'n disodli'r 'Safon Chwe Erw ' flaenorol. Dylai'r rhain fod o fudd i awdurdodau sy'n paratoi safonau darpariaeth lleol ac i eraill sydd â diddordeb mewn darparu ac amddiffyn manau agored ar gyfer chwaraeon, hamdden

'Planning and Design for Outdoor Sport and Play' National Playing Fields Association/Fields in Trust (2008)

a chwarae. Seilir y 'Safonau Meincnod' ar arolygon a gynhaliwyd yn Lloegr, ond mae FIT o'r farn eu bod yn berthnasol mewn lleoedd eraill yn ogystal.

2.10 Yn y 'Safonau Meincnod' newydd argymhellir neilltuo 1.2ha o dir ar gyfer lleiniau chwarae am bob 1,000 o'r boblogaeth, gydag amrywiadau rhwng yr argymhellion ar gyfer ardaloedd trefol a gwledig. Argymhellir hefyd y dylai fod 1.6ha o dir ar gyfer yr holl chwaraeon awyr agored am bob 1,000 o'r boblogaeth, eto gyda gwahaniaethau rhwng ardaloedd trefol a gwledig. Mae'r 'Safonau Meincnod' yn cydnabod y dylai cyfleusterau fodloni meini prawf technegol a hygyrchedd, sy'n adlewyrchu ansawdd a defnyddioldeb manau penodol.

2.11 Mae 'Safonau Meincnod' FIT yn cydnabod y bydd rhai awdurdodau lleol yn dymuno pennu eu safonau eu hunain gan ddefnyddio offer asesu gwahanol, ond yn argymhell darparu gofod chwarae awyr agored i blant o 0.25ha am bob 1,000 o'r boblogaeth ar gyfer 'Gofod Chwarae Dynodedig â Chyfarpar', 0.55ha ar gyfer 'Gofod Chwarae Anffurfiol' a 0.80ha ar gyfer 'Gofod Chwarae i Blant'. Mae'r 'Safonau Meincnod' hefyd yn darparu canllawiau ar y lefelau priodol o hygyrchedd, sy'n pennu y dylai fod 'mannau lleol' ar gyfer chwarae neu hamdden anffurfiol o fewn 100 metr i'r cartrefi, 'mannau lleol â chyfarpar neu a dirluniwyd' o fewn 400 metr a manau cymdogaeth â chyfarpar sy'n darparu ar gyfer anghenion plant a phobl ifanc o fewn 1,000 metr. Rhoddir crynodeb o'r 'Safonau Meincnod' yn Atodiad C.

2.12 Mae CABE Space (sy'n rhan o'r Comisiwn dros Bensaerniaeth yn yr Amgylchedd Adeiledig) yn darparu cyngor ac arweiniad ynglŷn â manau gwyrdd trefol yn Lloegr. Mae ei ymchwil a'i gyngor yn berthnasol hefyd i Gymru. Paratowyd pecyn cymorth gan CABE sy'n caniatáu asesu ansawdd gofod cyhoeddus yn nhermau mynediad, defnydd, cynnal a chadw, dyluniad a gwedd a ffactorau eraill. Lanswyd Cynllun Gwobr y Faner Werdd yng Nghymru yn 2002 i ddathlu'r achlysur pan gyrhaeddodd y manau gorau safon rhagoriaeth a dderbynnid yn genedlaethol. Bellach mae gan oddeutu hanner yr awdurdodau lleol fannau gwyrdd a wobrwyyd yn eu hardal. Bu CABE hefyd yn edrych ar y cysylltiadau rhwng gweithgarwch corfforol a'r amgylchedd, ac yn ymchwilio i fframwaith ar gyfer categoraidd mathau o ofod ar gyfer chwaraeon a hamdden a manau gwyrdd.

2.13 Mae Comisiwn Dylunio Cymru (DCfW) hefyd yn darparu cyngor ynglŷn â gwahanol gynlluniau sydd weithiau yn cynnwys elfennau o ofod agored a hamdden.

'Green Space Strategies: a Good Practice Guide', Y Comisiwn dros Bensaerniaeth yn yr Amgylchedd Adeiledig (Mai 2004)

'Physical Activity and the Built Environment', Y Comisiwn dros Bensaerniaeth yn yr Amgylchedd Adeiledig (2006)

Prif faes diddordeb y Comisiwn yw hyrwyddo safonau dylunio uchel sy'n annog cynhwysiant cymdeithasol a datblygu cynaliadwy.

Ffynonellau Gwybodaeth Waelodlin

2.14 Darperir cyngor gan Gyngor Chwaraeon Cymru (SCW) ar bob agwedd ar gynllunio ar gyfer chwaraeon a hamdden, gan gynnwys yr agweddau a ystyrir yn y CDLLau; ac fel ymgynghorai statudol, mae'n ofynnol ymgynghori â'r Cyngor ynghylch ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar feysydd chwarae ac yn cynnwys, ar hyn o bryd, llain chwarae sydd â'i arwynebedd yn 0.4ha o leiaf. Maes o law bydd y trothwy hwn yn gostwng i gynnwys safleoedd â llain chwarae o 0.2ha.

2.15 Gall fod yn fuddiol hefyd pe bai awdurdodau cynllunio lleol yn rhoi gwybod i SCW am geisiadau eraill sy'n ymwneud â darparu neu golli manau chwarae neu hamdden, neu â phrif gyfleusterau chwaraeon a hamdden, a cheisiadau am ddatblygiadau preswyl sylweddol. Gall SCW wedyn benderfynu a ddylai ofyn am ragor o wybodaeth am geisiadau cynllunio penodol, er mwyn cynghori neu wneud sylwadau.

2.16 Mae SCW yn darparu gwybodaeth i awdurdodau cynllunio lleol ac i sefydliadau ac unigolion eraill am y patrymau cyfnewidiol o gyfranogi, a'r cyfleusterau sydd eu hangen ar gyfer chwaraeon a hamdden. Mae'n cyhoeddi dadansoddiadau o'r cyflenwad o gyfleusterau a'r galw amdanynt, a gall gynghori ynglŷn â safonau ar gyfer gwerthuso'r lefelau o ddarpariaeth leol, fel rheol ar gyfer paratoi cynllun datblygu. Yn y pen draw, mater i'r awdurdod cynllunio lleol, ar ôl ystyried yr amgylchiadau lleol, yw penderfynu a yw safon benodol yn dderbyniol yn ei ardal.

2.17 Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) yw cynghorwr statudol Llywodraeth y Cynulliad ar hamdden yn yr awyr agored, ac y mae'n darparu cyngor technegol ar gadwraeth natur a thirwedd ac ar bolisiau cynllunio ynglŷn â chyfleusterau hamdden. Mae hefyd yn cynnal ymchwil i gyfranogiad, addysg ac iechyd mewn perthynas â hamdden awyr agored, a manau gwyrdd trefol a gwledig.

2.18 Gan gydnabod cyfraniad pwysig manau gwyrdd naturiol hygyrch i ansawdd yr amgylchedd ac ansawdd bywyd yn yr ardaloedd trefol, mae CCGC wedi datblygu pecyn cymorth, a fydd yn helpu i sicrhau mynediad i ofod gwyrdd naturiol ar gyfer pawb yng Nghymru. Argymhelliad

'Keeping Up With Demand: An analysis of Facility Provision in Wales. Sports Update No 48' Cyngor Chwaraeon Cymru (Mawrth 2002)

'Framework for the Development of Sport and Physical Activity. From Strategy to Action' Cyngor Chwaraeon Cymru (Ebrill 2006)

'Providing Accessible natural Greenspace in Towns and Cities: A Practical Guide to Assessing the Resource and Implementing Local Standards of Provision in Wales' Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2006)

CCGC yw y dylid darparu o leiaf 2ha o ofod gwyrdd naturiol hygrych am bob 1,000 o'r boblogaeth; na ddylai neb fyw ymhellach na 300metr oddi wrth y gofod gwyrdd naturiol agosaf; y dylai fod o leiaf un safle 20ha o fewn 2km i'w cartref; y dylai fod o leiaf un safle 100ha hygrych o fewn 5km; ac y dylai fod un safle 500ha o fewn 10km. Hwyrach y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn dymuno defnyddio ac addasu'r darpariaethau hyn a'u cymhwysu i'w hanghenion a'u hamgylchiadau eu hunain.

2.19 Diben y pecyn cymorth yw helpu awdurdodau i nodi, darparu ar gyfer, a gwella manau gwyrdd naturiol er budd i'w cymunedau, ac efallai gysylltu hynny â pharatoi Aseidiadau Mannau Agored. Dylai hefyd ddarparu gwybodaeth waelodlin ar gyfer monitro'r cynnydd a wneir tuag at wireddu ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â'r pellter oddi wrth ofod gwyrdd. Mae rhai awdurdodau eisoes wedi cyflawni, neu'n bwriadu cyflawni, aseidiadau gan ddefnyddio Pecyn Cymorth CCGC. Erbyn 2010 disgwylir y bydd llawer mwy o awdurdodau wedi cynnal, neu wrthi'n cynnal, Aseidiadau o'r fath.


2.20 Mae paratoi CDLlau, canllawiau cynllunio atodol a briffiau datblygu yn cynnig cyfleoedd i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â darparu a defnyddio manau agored.

2.21 Dylai awdurdodau cynllunio lleol gadw mewn cof hefyd yr angen i geisio cyngor a gwybodaeth gan gynghorau tref a chymuned yn eu hardaloedd a chan Asiantaeth yr Amgylchedd, sydd â dyletswyddau statudol mewn perthynas â physgodfeydd, cadwraeth, hamdden, mordwyo, adnoddau dŵr a risg llifogydd. Dylid ymgynghori hefyd, pan fo'n briodol, â Dyfrffyrdd Prydain ac awdurdodau porthladdoedd perthnasol wrth baratoi cynlluniau ac yn ystod y broses o wneud penderfyniadau.

2.22 Gall twristiaid gyfrannu at y defnydd a wneir o gyfleusterau chwaraeon a hamdden, ac o lwybrau troed a llwybrau beiciau. Mae gwybodaeth gyffredinol am ymweliadau twristiaid ar gael yn Arolwg Twristiaeth y Deyrnas Unedig a baratoir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a chan Groeso Cymru.

Y Camau Paratoi Allweddol

2.23 Dylid seilio Aseidiadau Mannau Agored ar y camau allweddol canlynol:



2.24 Mae asesiadau'n cynnig cyfle i nodi meintiau ac ansawdd y mannau agored mewn ardaloedd, ac maent yn sail ar gyfer darparu, gwella a rheoli gofodau er mwyn manteisio ar eu cyfraniad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i'r cymunedau. Bydd yr union fformat a ddilynir wrth gynnal arolwg yn amrywio, ond dylai gynnwys pob un o'r camau allweddol uchod.

2.25 Bydd cyflawni'r asesiadau yn galw am gydweithio rhwng holl adrannau perthnasol yr awdurdod, cyrff allanol yn y sectorau preifat a gwirfoddol, defnyddwyr a chymunedau lleol, yn enwedig y cynghorau tref a chymuned, er mwyn ystyried anghenion ymwelwyr â'r ardal yn ogystal â phreswylwyr. Ar ôl eu cyflawni, dylai asesiadau o'r fath arwain at well cynllunio, a pholisïau corfforaethol a fydd yn hwyluso penderfyniadau cadarn wrth baratoi cynlluniau a rheoli datblygu, ac yn ei gwneud yn haws cyflawni'r dyletswyddau cynllunio a darparu tystiolaeth i'w defnyddio mewn apelau cynllunio.

2.26 Paratoir yr asesiadau, fel rheol, gan neu ar ran awdurdod cynllunio lleol. Pan nad ydynt wedi eu cynnal, gall arolygon a baratowyd ar ran ymgeisydd cynllunio fod yn fewnbwn defnyddiol i'r broses gynllunio, ar yr amod eu bod yn gyson â'r fethodoleg a nodir uchod ac â'r amcanion polisi yn PPW.

2.27 Bydd rhai awdurdodau cynllunio lleol yn dymuno defnyddio 'Safon Meincnod' FIT yn sail i'w polisïau CDLI, oni fyddant yn dewis datblygu safonau y tybiant eu bod yn adlewyrchu'r amgylchiadau lleol yn fwy manwl.

2.28 Dylai'r CDLlau fanteisio ar amrediad eang o ddulliau a fydd yn caniatáu nodi lefel briodol o ddarpariaeth mannau agored, gan adlewyrchu amgylchiadau a blaenoriaethau lleol.

2.29 Dylai awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod Aseiad Mannau Agored wedi ei gwblhau, fel rhan bwysig o'r broses o baratoi CDLI. Pan nad oes Aseiad ar gael, fodd bynnag, ni ddylent oedi cyn paratoi'r CDLI. Yn hytrach, dylent ddefnyddio pa bynnag wybodaeth sydd wrth law, ac y maent yn hyderus yn ei chylch.

2.30 Dylai polisïau'r CDLI gynnwys allbynnau eglur, sy'n nodi'r modd y bydd y cyfleusterau chwaraeon a hamdden a'r rhwydwaith o fannau agored yn ymaddasu ar gyfer newidiadau mewn amgylchiadau a blaenoriaethau, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd.

'Planning Policy Guidance Note 17: Planning for Open Space, Sport and Recreation' Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (Gorffennaf 2002)

'Assessing Needs and Opportunities: A Companion Guide to PPG17', Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (Medi 2002)

'National Planning Policy Guideline 11: Sport, Physical Recreation and Open Space', Gweithrediaeth yr Alban (Mehefin 1996)

'Rethinking Open space-Open Space Provision and Management: A Way Forward', Gweithrediaeth yr Alban (2002)

3. Cynlluniau Datblygu

Cynlluniau Datblygu Lleol

3.1 Dylai polisiau cynllunio sy'n eglur, yn effeithiol ac a weithredir yn dda mewn perthynas â chwaraeon, hamdden a mannau agored roi sicrwydd i ddatblygwyr ac i aelodau o'r cyhoedd ynglŷn â'r math o ddatblygu a ganiateir mewn lleoliad penodol. Dylid seilio'r polisiau ar dystiolaeth gadarn sy'n deillio o'r Asesiad Mannau Agored.

3.2 Dylai'r CDLI nodi gweledigaeth strategol yr awdurdod mewn perthynas â darparu, diogelu a gwella cyfleusterau ar gyfer chwaraeon, gweithgarwch corfforol, mannau agored a hamdden, a darparu polisiau eglur, a seilir ar ardaloedd penodol neu ar feini prawf. Dylai'r cynlluniau ystyried graddfa a dosbarthiad y cyfleusterau a'r gweithgareddau wrth ddyrannu safleoedd ar gyfer mannau agored a defnydd hamdden. Dylid rhoi sylw penodol i anghenion cymunedau lle mae'r ddarpariaeth o fannau agored a chyfleusterau hamdden yn wael, ac anghenion cymunedau sydd dan anfantais yn gymdeithasol ac yn economaidd.

3.3 Dylai paratoi Asesiad Mannau Agored ddarparu sail gadarnhaol ar gyfer pennu'r weledigaeth strategol angenrheidiol. Dylai'r CDLI hefyd ffurfio cysylltiadau cryfion rhwng cynlluniau a strategaethau perthnasol eraill, megis y Strategaeth Gymunedol, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a phan fo'n briodol, Cynlluniau Gweithredu Cymunedau yn Gyntaf a Chynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol.

3.4 PPW sy'n nodi'r materion y dylid rhoi sylw iddynt yn y cynllun datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau ar y categorïau cyffredinol canlynol.

Amddiffyn a Gwella'r Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden a'r Mannau Agored Presennol

3.5 Gall cyfleusterau awyr agored megis meysydd chwaraeon, tiroedd hamdden, mannau chwarae, llwybrau troed a llwybrau beiciau a choetiroedd gynnig llawer o fuddion amgylcheddol a buddion iechyd i'r gymuned. Mewn rhai mannau, gall colli cyfleusterau awyr agored a'u disodli gan ddarpariaeth dan do, lle y goruchwylir mynediad ac y codir tâl, neu darpariaeth ganolog yn hytrach na lleol, effeithio'n sylweddol ar y swyddogaeth o fodloni'r anghenion hamdden ac amwynder, yn enwedig anghenion pobl ifanc. Trwy gynnal Asesiad Mannau Agored, dylai'r awdurdodau cynllunio lleol fod mewn sefyllfa i nodi pa rannau sy'n werthfawr ar gyfer hamdden ac fel mannau agored, ac sydd rhaid eu hamddiffyn.

'Coetiroedd i Gymru: Strategaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer coed a choetiroedd' Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001)

Dylid pennu polisiau i'r perwyl hwnnw yn yr CDLI. Gall FIT, y Gymdeithas Mannau Agored ac eraill gynghori ynglŷn â dulliau amddiffyn gwahanol i'r dulliau a ddarperir trwy'r broses gynllunio. Mae'n bosibl y bydd nodweddion demograffig a phatrymau hamdden cyfnewidiol yn golygu na fydd rhai cyfleusterau yn parhau i gwrdd â'r gofynion, ac y bydd ffurfiau amgen o ddarpariaeth manau agored a chyfleusterau yn fwy addas.

3.6 Weithiau effeithir ar y defnydd o fannau agored a chyfleusterau gan ffactorau megis nodweddion tirffurf a thirwedd, eu perthynas â'r defnydd tir cyfagos, dulliau mynediad megis llwybrau troed, llwybrau beiciau a ffyrdd, y gymysgedd o ddefnyddwyr, lefelau diogelwch, fandaliaeth, cŵn nas goruchwylir, safonau cynnal a chadw, y ddarpariaeth o wardeiniaid neu geidwaid, a phellter o'r cartref, yn enwedig i'r plant ieuengaf. Gall cyflwr gwael cyfleusterau hamdden, meysydd chwarae a manau agored gyfyngu ar y defnydd a wneir ohonynt, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd y cyfleusterau, yr arwynebau a'r draenio. Mewn amgylchiadau o'r fath gall fod yn briodol rhoi blaenoriaeth i welliannau yn hytrach nag edrych am ddarpariaeth ychwanegol.

3.7 Priodolir arwyddocâd arbennig i feysydd chwarae a manau agored gwyrdd, fel nodweddion gwerthfawr ar gyfer hamdden ac amwynder ac, yn enwedig yn y trefi a'r dinasoedd, oherwydd eu cyfraniad i'r amgylchedd trefol ac i fioamrywiaeth. Mae meysydd chwarae a manau gwyrdd yn ychwanegu diddordeb a bywiogrwydd i fywydau pobl ac i'w hamgylcheddau gwaith. Fel ffordd o ymateb i'r newid yn yr hinsawdd, gallant helpu i gynnal tymereddau rhesymol yn lleol, gwella ansawdd yr aer mewn ardaloedd trefol ac efallai gyfrannu at leihau dŵr ffo. Trwy blannu coed gall y manau hyn ddarparu cysgod ac, yn enwedig mewn manau a gysylltir gan lwybrau ac o'u rheoli yn sensitif, gallant gyfrannu at y bioamrywiaeth. Yn ychwanegol at eu swyddogaeth amgylcheddol, gallant hefyd gynnig manteision o ran iechyd a lles, a chyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cymunedol. Pan nad oes eu hangen ar gyfer eu pwrpas gwreiddiol, gellir eu defnyddio i fodloni'r angen am dir hamdden neu amwynder yn y gymuned yn gyffredinol. Ac eithrio pan ellir dangos yn eglur nad oes unrhyw brinder, ni ddylid ystyried y posibilrwydd o'u defnyddio ar gyfer datblygiad amgen. Bydd angen cyfiawnhau unrhyw golled maes chwarae gyferbyn â'r polisiau yn yr CDLI a PPC, a chysoni'r golled â chanfyddiadau'r Asesiad Mannau Agored os oes un ar gael.

3.8 Mae'n debyg mai'r ffordd orau weithiau i gadw a gwella cyfleusterau fydd trwy ailddatblygu neu adfer rhan fach o'r safle, yn enwedig pan fo hynny'n gysylltiedig â'r

'Building Health: Blueprint for action' National Heart Forum (2007)

'Cynllunio ar gyfer Newid Hinsawdd'. Dogfen Ymgynghori. Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006)

'Public Space Lessons: Adapting Public Space to Climate Change'. Y Comisiwn dros Bensaerniaeth yn yr Amgylchedd Adeiledig (2008)

defnydd a wneir o faes chwarae; er enghraifft trwy ddarparu cyfleusterau newid, pan na fyddent yn amharu ar faint nac ansawdd y lleiniau sy'n weddill, na'r defnydd a wneir ohonynt. Byddai rhai mathau o ddatblygu, er enghraifft tai, hwyrach yn effeithio ar y defnydd o'r manau chwarae sy'n weddill, a dylid gwrthbwysu'r budd a gynigir gan datblygiad o'r fath yn erbyn yr effaith bosibl ar ofod agored, a allai ddigwydd o ganlyniad.

3.9 Mewn rhai amgylchiadau gellir gwneud darpariaeth amgen sy'n well, neu o leiaf cyfwerth, yn rhywle arall. Ystyr hynny yw y dylai'r tir neu'r cyfleusterau a ddarperir yn gyfnewid fod cyfwerth neu'n well na'r hyn a gollir, o ran ei allu i ddarparu ar gyfer anghenion yr ardal. Bydd hynny fel arfer, ond nid o anghenraid, yn cyfeirio ar ei faint, ei nodweddion, ei leoliad a'i hygyrchedd. Dylai darpariaeth gyfnewid o'r fath gael ei rhoi ar gael cyn gynted ag y bo modd, a dylid cysylltu hynny pan fo angen â chytundeb cynllunio, ac ag unrhyw ganiatâd cynllunio posibl a roddir ar gyfer datblygu neu ddefnyddio'r maes chwarae sydd i'w gollu. Dylid ystyried natur unrhyw safle neu gyfleusterau amnewid a'u hagosrwydd at y cymunedau yr effeithir arnynt, yn enwedig pan fo'r cymunedau hynny yn ddifreintiedig neu dan anfantais, a hygyrchedd y safle neu gyfleusterau i'r gymuned gyfan, ac i bobl anabl.

3.10 Yn ei hanfod, mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu, ar sail tystiolaeth, a oes gormod o ddarpariaeth meysydd chwarae mewn ardal ei peidio. Dylai fod gan bob awdurdod yr wybodaeth fanwl gywir ddiweddaraf am fannau agored, chwaraeon a chyfleusterau hamdden, yn gyson â'r Aseiad Mannau Agored pan fo aseiad ar gael, i'w alluogi i wneud penderfyniadau ac i'w cyfiawnhau. Pan nad oes gwybodaeth o'r fath ar gael, bydd disgwyl i unrhyw ddatblygwr arfaethedig ddarparu gwybodaeth i brofi bod tir neu adeiladau dros ben yr hyn sy'n ofynnol. Bydd y cymunedau lleol hefyd yn ffynonellau pwysig o wybodaeth am fannau agored ac am gyfleusterau presennol ac arfaethedig.

3.11 Gall ailddatblygu gynnwys ffurfiau amgen o ddarpariaeth, megis lleiniau pob tywydd, neu fathau amgen o ddefnydd sy'n gysylltiedig â hamdden, megis manau bywyd gwyllt naturiol neu gynlluniau coetir cymunedol. Er eu bod yn achosi gostyngiad yn nifer y lleiniau glaswellt, gall lleiniau pob tywydd ddarparu gwelliant gwirioneddol o ran nifer yr oriau chwaraeadwy a'u defnyddioldeb mewn strategaeth meysydd chwarae gydlynol. Bydd rhaid gwrthbwysu hynny, fodd bynnag, yn erbyn yr angen i gadw cyflenwad digonol o leiniau glaswellt naturiol ar gyfer chwaraeon tîm;

pwysigrwydd meysydd chwarae penodol fel amwynderau; a'u pwysigrwydd fel mannau lle y gall plant chwarae a mannau y gellir eu defnyddio gan y gymuned ar gyfer hamdden anffurfiol.

3.12 Dylai gofod agored gael ei ddiogelu, yn enwedig pan fo iddo werth sylweddol fel amwynder neu ar gyfer hamdden. Dylai awdurdodau cynllunio lleol nodi mannau o'r fath yn y cynllun datblygu, a sefydlu meini prawf y dylid asesu safleoedd gyferbyn â hwy pan fo'r pwysau i'w datblygu yn codi. Mae'n bwysig nad yw tir trefol, sy'n wag neu a ddefnyddir yn annigonol, yn cael ei ddiogelu'n ddiangen pan nad oes gwerth sylweddol iddo o safbwynt amwynder, cadwraeth natur na hamdden, gan fod posibilrwydd y gallai ei ddatblygu ysgafnhau'r pwysau i ddatblygu mannau eraill llai cynaliadwy.

Cynllunio ar gyfer Mannau Agored a Chyfleusterau Hamdden Newydd

3.13 Dylai'r safonau ar gyfer mannau agored a darpariaeth hamdden newydd fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn sy'n tarddu o'r Asesiad Mannau Agored, os yw ar gael. Y nod priodol yw sicrhau mynediad hwylus ar gyfer pawb, drwy ddull heblaw mewn car, i gyfleusterau hamdden anffurfiol a gofod agored. Gall hyn gynnwys gofodau gwyrdd llinol neu ddyfrffyrdd sy'n cysylltu â rhwydwaith ehangach o ofod agored. Wrth ystyried y ddarpariaeth, dylai awdurdodau cynllunio lleol gadw mewn cof anghenion pobl anabl a phobl mewn cymunedau difreintiedig, yn ogystal â'r ffaith ei bod yn anoddach i bobl sydd dan anfantais deithio'n bell o'u hardaloedd lleol.

3.14 Wrth bennu polisiau sy'n cynnwys safonau ar gyfer darparu cyfleusterau hamdden a mannau agored newydd, bydd yn fuddiol pennu'r dimensiynau lleiaf a fydd yn dderbyniol ar gyfer mathau penodol o ddarpariaeth. Mae cyngor ar ddarparu a dylunio cyfleusterau chwaraeon ar gael gan SCW. Bydd y rhai sy'n gyfrifol am reoli a chynnal y cyfleusterau yn debygol o chwarae rhan allweddol mewn penderfynu ar ffurf briodol y ddarpariaeth leol.

3.15 Dylai awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod datblygiad newydd, gan gynnwys datblygiadau mewn ardaloedd masnachol a diwydiannol, yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer yr anghenion hamdden a fydd yn codi, a chyfleoedd ar gyfer cerdded a beicio. Dylai hynny arwain at ddatblygiadau mwy deniadol, a fydd wedi eu cynllunio yn well ac yn berthynol i bolisiau a blaenoriaethau'r CDLI. Yn hytrach na chymhwyso safonau unffurf ar gyfer mannau agored a darpariaeth hamdden ym mhob datblygiad

newydd, dylid ystyried sut y mae'r datblygiad newydd yn cydweddu â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y CDLI. Gall hyn olygu mynnu cael cyfraniad i wella cyfleusterau, llwybrau a llwybrau tynnu neu ofodau i ffwrdd o'r safle, er enghraifft pan fo'r datblygiad dan sylw yn creu angen ychwanegol yn hytrach nag yn gwneud darpariaeth uniongyrchol, ar y safle.

3.16 Yn achos dyraniadau preswyl a defnydd-cymysg mawr newydd dylai'r CDLI nodi canllawiau eglur ar raddfa a ffurf y ddarpariaeth a geisir, a hwyrach ymhelaethu ar hynny mewn canllawiau cynllunio atodol neu mewn briffiau datblygu. Bydd angen i'r rhain adlewyrchu blaenoriaethau'r Asesiad Mannau Agored, pan fo ar gael.

3.17 Yn enwedig pan fo tir yn brin mewn ardaloedd trefol, hwyrach y ceir cyfleoedd i ddarparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden mewn ardaloedd ar gyrion y trefi, mewn ffyrdd nad ydynt yn gwrthdaro â pholisïau eraill i ddiogelu'r amgylchedd ac amwynder cymunedau.

3.18 Mewn ardaloedd gwledig, dylid lleoli cyfleusterau yn yr aneddiadau neu wrth eu hymyl. Byddai cyfiawnhad arbennig yn ofynnol ar gyfer unrhyw ddatblygiadau ar dir agored yng nghefn gwlad. Gellir rhoi ystyriaeth ffafriol i gynigion priodol sy'n gysylltiedig ag arallgyfeirio ar fferm.

3.19 Dylai'r ddarpariaeth o ofodau agored, lleoedd a chyfleusterau ar gyfer chwaraeon, hamdden a chwarae plant fod yn ystyriaethau pwysig mewn cynigion ynglŷn ag adfywio. Mae'r cynllun Trefi Taclus yn darparu cyllid sy'n galluogi awdurdodau lleol i gynnal amrediad eang o brosiectau er mwyn gwella'r amgylchedd lleol, gan gynnwys creu cynefinoedd bywyd gwyllt newydd, gerddi cymunedol neu brosiectau celfyddydol er mwyn adfer defnydd cymunedol o dir a esgeuluswyd. Yn fwy cyffredinol, dylid ystyried ailddatblygu tir a ddatblygwyd yn y gorffennol, neu wneud defnydd lluosog o fannau agored a chyfleusterau, yn enwedig cyfleusterau ysgolion, lle mae potensial weithiau i ffurfio yn glwb chwaraeon cymunedol neu leol, a allai wella'r ddarpariaeth trwy fod yn ganolbwynt i dimau. Anogir ysgolion i agor eu meysydd chwarae a'u safleoedd i'w defnyddio gan y gymuned, yn enwedig lle mae prinder o feysydd chwarae a manau agored.

Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden Mawr

3.20 Pan fo modd, dylid lleoli cyfleusterau chwaraeon a hamdden mawr, megis stadia rygbi, pêl-droed ac athletau yng nghanol neu ger canol trefi, ar safleoedd a all gyfrannu at fywiogrwydd a hyfywedd y canolbwyntiau hynny, ac y gellir eu cyrraedd ar wahanol foddau trafndiaeth. Pan nad oes safleoedd ar gael mewn manau o'r fath, dylid ystyried

Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol
Cymru 34/2003 'Ysgolion Bro'

safleoedd ar gyrion y rhannau canol, yn enwedig safleoedd â mynediad hwylus at drafnidiaeth gyhoeddus ac, o ddewis, ar dir a ddatblygwyd eisoes. Lle bynnag y lleolir datblygiadau o'r fath, dylid ystyried y trefniadau mynediad a diogelwch ac amwynder y preswylwyr, y defnyddwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Os yw'n bosibl, cerdded ddylai fod yn brif ddull mynediad i gyfleusterau o'r fath, ac yna beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus; a chlodiant preifat yw'r opsiwn y dylid ei ffafrio leiaf.

Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

3.21 Mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai ohonynt sy'n anabl, yn cael mynediad, ar gyfer defnydd achlysurol yn ogystal â defnydd mwy ffurfiol a threfnedig, i safleoedd sy'n darparu cyfleoedd sicr a diogel ar gyfer chwarae a chymdeithasu. Er bod manau chwarae ffurfiol sy'n cynnwys cyfarpar yn darparu cyfleoedd, yn enwedig i blant ifanc o fewn cymunedau, nid dyna'r unig ffurf o ddarpariaeth y dylid ei chynnig. Gall lleiniau ar gyfer chwarae ar olwynion, gemau pêl, 'gofodau chwaraeadwy', coetir cymunedol a manau anffurfiol ar gyfer 'chwarae amgylcheddol' i gyd ddarparu cyfleoedd i blant ryngweithio â'i gilydd, a manteisio ar y buddion cymdeithasol ac iechyd a lles a enillir trwy chwarae egnïol a chorfforol.

3.22 Gall integreiddio manau chwarae yn rhan o'r amgylchedd adeiledig a naturiol, gan osgoi creu ffiniau artiffisial, ddarparu manau diogel a hygyrch ar gyfer chwarae a chymdeithasu - fel arfer yn gysylltiedig â thai. Trwy gynllunio strydoedd newydd yn briodol, a rheoli traffig ar y strydoedd presennol, gellir helpu i greu manau chwarae diogelach yn yr ardaloedd preswyl. Gall darparu gofod sydd wedi ei oleuo'n dda ac yng ngolwg y tai, ynghyd â gostwng y terfynau cyflymder, hyrwyddo defnydd diogelach o strydoedd. Yn ddelfrydol, y gymuned ei hunan ddylai arwain yn hyn o beth, gyda chyfranogiad llawn y plant, eu teuluoedd a phobl hŷn yn y gwaith dylunio. Er nad ydynt fel arfer yn rhydd o draffig, nac o geir wedi eu parcio, gall strydoedd o'r fath ddarparu ar gyfer amrediad o weithgareddau chwarae a hamdden. Bydd y mathau ac amrediad o ofodau, arwynebau a chyfarpar a ddarperir yn amrywio gan adlewyrchu, er enghraifft, cymeriad y stryd, dewisiadau'r gymuned a'r adnoddau sydd ar gael.

3.23 Mae cynnwys y plant a'r bobl ifanc wrth gynllunio'r ddarpariaeth yn hanfodol, yn enwedig wrth ymgynghori ynghylch lleoliad a dyluniad manau chwarae ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer datblygiadau tai newydd. Dylai'r awdurdodau cynllunio lleol geisio cynnwys y grwpiau hyn o'r dechrau, wrth baratoi'r cynlluniau

'Polisi Chwarae' Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002)

'Chwarae yng Nghymru: Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae' (Chwefror 2006)

'A Better Place to Play' - Asiantaeth yr Amgylchedd (2005)

'Developing Accessible Play Space - A good practice guide', ODPM, (Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol bellach) (2003)

'Home Zone Design Guidelines', Institute of Highway Incorporated Engineers (Mehefin 2002)

'Manual for Streets' Yr Adran Drafnidiaeth a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (Mehefin 2007)

datblygu, y briffiau dylunio, canllawiau cynllunio atodol a'r strategaethau chwarae lleol. Gall Chwarae Cymru ddarparu cyngor, canllawiau a chymorth ynglŷn ag amgylcheddau chwarae ar gyfer plant phobl ifanc, a bydd o fantais i'r awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â'r sefydliad hwnnw, wrth ystyried sut y gellir bodloni anghenion y grwpiau dan sylw.

Cerbydau Hamdden Oddi-ar-y-ffordd

3.24 Mae'r arfer o ddefnyddio cerbydau oddi-ar-y-ffordd yn ddireolaeth at ddibenion hamdden yn cynyddu yng Nghymru, ac weithiau yn digwydd mewn mannau agored trefol, ar lonydd gwyrdd, ar lwybrau troed ac yng Nghefn gwlad. Lle nad oes tir neu gyfleusterau neilltuedig ar gyfer hynny, a lle y gellir achosi gwrthdaro â defnyddwyr eraill, gall gweithgareddau o'r fath niweidio amwynder y preswylwyr ac effeithio ar y dirwedd a'r nodweddion amgylcheddol. Yn y rhannau gwledig mwyaf diarffordd, gall defnydd o'r fath achosi problemau penodol ynglŷn â gorfodi. Prin iawn yw'r ddarpariaeth o gyfleusterau, ar wahân i'r rheini a ddefnyddir ar gyfer digwyddiadau achlysurol, sy'n gysylltiedig â'r defnydd dros dro o dir ar gyfer rasio ceir a beiciau modur am 14 diwrnod y flwyddyn (ac eithrio ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) fel a ganiateir o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Mater i awdurdodau cynllunio lleol yw ystyried a fyddai'n briodol defnyddio pwerau Cyfarwyddyd Erthygl 4 i dynnu yn ôl yr hawliau datblygu a ganiateir, a dod â'r cyfryw fathau o ddefnydd o dan reolaeth cynllunio.

3.25 Dylai awdurdodau cynllunio lleol roi sylw i'r gweithgareddau presennol ac i'r galw tebygol, ac ystyried manteision paratoi polisiau i hwyluso rheoleiddio ymarfer a rasio, wrth baratoi eu Hasesiadau Mannau Agored a'u CDLlau. Hwyrach y bydd yn fuddiol cydweithredu fel y bo'n briodol ag awdurdodau eraill cyfagos wrth ystyried rhai mathau o gyfleusterau, er mwyn osgoi rhai materion trawsffiniol a allai godi, er enghraifft ynglŷn â gorddefnyddio a niwsans.

3.26 Ceir gwahanol fathau o weithgareddau oddi-ar-y-ffordd, sydd â'u gofynion penodol yn codi gwahanol ystyriaethau cynllunio. Wrth ystyried safleoedd posibl, dylid cymryd gofal i osgoi safleoedd sy'n debygol o gael effaith annerbyniol; a phan ddewisir safleoedd, dylid ceisio lliniaru'r effeithiau trwy sicrhau y cedwir y cerbydau modur ar wahân i ddefnyddwyr eraill; sicrhau mynedfa a chyfleusterau parcio digonol i gyfranogwyr a gwylwyr, gan gynnwys yr anabl, ac ar gyfer cerbydau argyfwng; sicrhau y gellir sgrinio safleoedd ac adeiladau a'u lleoli mewn ffordd sy'n lleihau'r effaith

'Regulating the use of motor vehicles on public rights of way and off road - A Guide for Local Authorities, Police and Community Safety Partnerships' DEFRA a Llywodraeth Cynulliad Cymru (Rhagfyr 2005)

'Off Road or Off Limits: Recreation Driving in the National Parks' Cyngor y Parciau Cenedlaethol (2005)

weledol a'r sŵn a grëir; y gellir ymgorffori'r nodweddion tirwedd presennol; bod yr oriau gweithredu yn cael eu rheoli, i leihau effaith y gweithgarwch ar yr ardal o amgylch; bod y safleoedd ymhell i ffwrdd o ardaloedd preswyl, a gorau oll os ydynt ar dir a ddatblygwyd eisoes; ac yr osgoir unrhyw safleoedd sydd o bwysigrwydd hanesyddol, gwyddonol neu amaethyddol neu o ran cadwraeth natur a thirwedd.

Rhandiroedd garddio

3.27 Mae rhandiroedd yn fannau gwyrdd pwysig mewn ardaloedd trefol a gwledig, a gall eu trin gyfrannu at gynaliadwyedd, darparu cyfleoedd ar gyfer hamdden, ymarfer corfforol a bwyd iach, gwella bioamrywiaeth ac annog rhyngweithio ymhlith gwahanol grwpiau yn y gymuned. Yn unol â darpariaethau Deddf Mân Ddaliadau a Rhandiroedd 1908, mae awdurdodau lleol a chynghorau tref a chymuned dan ddyletswydd i ddarparu digon o blotiau ar gyfer preswylwyr os credant fod galw am rhandiroedd garddio. Dylai awdurdodau sicrhau bod rhandiroedd statudol o fewn eu hardaloedd yn cael eu diogelu'n ddigonol, eu hyrwyddo a'u rheoli, a bod digon ohonynt i gwrdd â'r galw gan breswylwyr sy'n dymuno eu trin. Yn benodol, dylai pob safle o'r fath gynnwys elfen addas o gynefin bywyd gwyllt. Mae pwysigrwydd safleoedd cyfunedig rhandiroedd/compostio/bywyd gwyllt yn debygol o gynyddu, yn enwedig wrth i ddwysedd datblygiadau tai preswyl gynyddu. Dylai'r polisïau yn yr CDLI roi sylw i'r angen i ddarparu a diogelu safleoedd rhandiroedd/compostio/ bywyd gwyllt pan fo prinder wedi ei nodi, ac i wella hygyrchedd safleoedd o'r fath i bob defnyddiwr. Gall fod yn briodol defnyddio Cytundebau Adran 106 i ddarparu rhandiroedd ar y cyd â chompostio a manau gwyrdd naturiol.

3.28 Pan fwriedir datblygu tir a ddefnyddir yn rhandiroedd statudol at ddibenion eraill, dylai'r awdurdod lleol geisio lliniaru'r golled trwy gyfrwng gofyniad i ddarparu safleoedd amgen newydd ar gyfer rhandiroedd/compostio/bywyd gwyllt. Gwarchodir y rhandiroedd statudol a ddarperir gan awdurdodau lleol, o dan Ddeddf Rhandiroedd 1925. Mae'n bosibl na cheir yr un diogelwch yn achos safleoedd rhandir sydd mewn perchnogaeth breifat neu a ddelir dros dro o dan gytundeb rhwng tîfeddiannwr a deiliad rhandir. Mae'n ofynnol cael caniatâd Gweinidogion Cymru o dan adran 8 o'r Ddeddf cyn y gellir defnyddio rhandiroedd statudol at ddibenion eraill. Wrth ystyried cais am ganiatâd o'r fath, ni chaiff Gweinidogion Cymru ystyried rhinweddau'r datblygiad arfaethedig, gan mai'r cwestiwn hanfodol ger eu bron fydd a ellir parhau i fodloni'r galw am rhandiroedd yn yr ardal, pe na bai'r rhandiroedd dan sylw ar gael mwyach.

Hamdden Ddyfrol

3.29 Mae Cymru yn gyfoethog o ran adnoddau a chyfleoedd hamdden sy'n dibynnu ar ddŵr, mewndirol ac arfordirol. Gall hamdden sy'n ymwneud â dŵr gyfrannu at iechyd a lles corfforol a meddyliol y cyfranogwyr, a chyfrannu at yr economi wledig a threfol ac at reolaeth yr amgylchedd.

3.30 Nod Strategaeth Twristiaeth Arfordirol Llywodraeth y Cynulliad (2007) yw darparu fframwaith ar gyfer datblygu twristiaeth arfordirol tra'n parchu ansawdd yr amgylchedd ac yn sicrhau buddion i'r gymuned. Ei nod yw bwrw ymlaen ag argymhellion i ddatblygu chwaraeon dŵr, er mwyn cael y budd gorau o Lwybr Arfordirol Cymru Gyfan, ac i nodi safleoedd posibl ar gyfer marinas, i'w harchwilio ymhellach.

3.31 Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a fu'n arwain yr ymchwil i baratoi 'Lle Gwell i Chwarae yng Nghymru, Strategaeth Cymru ar gyfer Hamdden Ddyfrol' (Mai 2008), er mwyn datblygu'r ymwybyddiaeth o chwaraeon a hamdden dyfrol, a chyfleusterau ar eu cyfer mewn ffordd sy'n amgylcheddol sensitif. Mae'r dyfrffyrdd mewndirol yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd hamdden a chyfleoedd eraill i ysgogi gweithgarwch economaidd a chyfrannu at yr amrediad o gyfleoedd datblygu cynaliadwy a chadwraeth. Dylid ystyried y potensial a gynigir o ran hamdden yn rhan o'r Aseiad Mannau Agored, a dylai hynny gael ei adlewyrchu hefyd wrth baratoi'r CDLI. Yn rhan o'r ystyriaeth honno, dylid asesu a oes gan y cyhoedd fynediad digonol a phriodol i'r cyfleusterau hyn, ac asesu eu gallu i ymdopi â hamdden heb i hynny amharu ar ansawdd y dŵr, y bioamrywiaeth ac amwynder defnyddwyr eraill a chymunedau yn yr ardaloedd o amgylch. Dylid ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Dyfrffyrdd Prydain ac awdurdodau porthladd neu harbwr perthnasol yn gynnar yn y broses o baratoi cynlluniau a hefyd fel y bo'n briodol wrth wneud penderfyniadau cynllunio, er mwyn sicrhau sylw priodol i faterion adnoddau dŵr. Gall y nodweddion dyfrol mewndirol, megis afonydd, camlesi, cronfeydd dŵr a llynnoedd gyfrannu buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer hamdden weithgar a goddefol. Dylid ystyried y potensial ar gyfer estyn y llwybrau mordwyadwy ar sail is-ranbarthol, er mwyn ychwanegu at eu buddion i dwristiaeth a hamdden.

3.32 Dylid annog cynigion mewn perthynas â chwaraeon a hamdden, yn enwedig y rhai hynny sy'n cyfrannu at adfer, adfywio a diogelu adnoddau dŵr mewndirol Cymru, ei harbwrâu a'i dociau a'r bywyd gwyllt morol a dŵr croyw, ar yr amod nad effeithir yn annerbyniol ar yr amgylchedd, ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, amwynder preswylwyr lleol na mwynhad o'r adnodd gan ddefnyddwyr eraill.

'Strategaeth Dwristiaeth Arfordirol Cymru' Dogfen Strategol Derfynol Ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007)

'A Draft Strategic Plan for Water Related Recreation in Wales.' Prifysgol Brighton. Drafft Ymgynghorol (Rhagfyr 2007)

'Waterways for Wales: The Way Forward.' Dyfrffyrdd Prydain (2004)

'Lle Gwell i Chwarae: Strategaeth ar gyfer Chwaraeon a Hamdden yn gysylltiedig â Dŵr' Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (Mai 2008)

Marinas

3.33 Mae darparu cyfleusterau hamdden sy'n seiliedig ar ddŵr, gan gynnwys marinas arfordirol a mewndirol ac angorfeydd ar gyfer badau yn galw am weithredu yn strategol. Gall newid yn yr amgylchiadau mewn un ardal effeithio ar ardaloedd eraill, gan gynnwys awdurdodau cynllunio eraill. Dylai'r awdurdodau cynllunio lleol ystyried mabwysiadu dulliau cydlynol o wneud darpariaeth yn y dyfodol, ar y cyd ag awdurdodau eraill sy'n rhannu mynediad i'r un dyfrffyrdd. Dylai'r ddarpariaeth bresennol o farinas ac angorfeydd badau, a'r galw a ddisgwyllir yn y dyfodol, gael eu nodi yn yr Asesiad Mannau Agored, a dylai polisiâu'r CDLI adlewyrchu canfyddiadau'r Asesiad. Dylid ystyried cynigion mewn perthynas â'u heffeithiau tebygol, yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol. Mae Strategaeth Dwristiaeth Arfordirol Cymru yn nodi'r meini prawf y dylai'r datblygiadau marina eu bodloni, os ydynt i'w hystyried am gymorth allan o arian cyhoeddus.

'Dal y Don: Strategaeth Twristiaeth Chwaraeon Dŵr' Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004)

Cyrsiau Golff

3.34 Mae golff yn weithgarwch hamdden sefydledig sydd â photensial hefyd i gyfrannu fel atyniad twristaidd poblogaidd yng Nghymru. Yn ddarostyngedig i ystyriaeth drwyadl o'r effaith ar y dirwedd, y patrymau defnydd tir a'r amgylchedd naturiol, gellir creu cyrsiau golff a lleiniau ymarfer o ansawdd da trwy ddefnyddio yn greadigol safleoedd mewn mannau hygyrch a ddatblygwyd eisoes, y gellir eu cyrchu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Dylid ystyried cynigion ar gyfer datblygiadau cymysg, sy'n cynnwys cwrs golff ar y cyd â defnydd preswyl, bywyd gwylt neu fathau eraill o ddefnydd ar safleoedd y tu allan i'r trefi, gyferbyn â'r polisiâu ar gyfer y mathau eraill hyn o ddatblygu.

3.35 Dylai CDLlau nodi lleoliadau addas ar gyfer meysydd golff, yn ddibynnol ar Asesiad Mannau Agored yr awdurdod os paratowyd un, a nodi'r galw a ragwelir yn y dyfodol am ddarpariaeth o gyrsiau golff a lleiniau ymarfer. Anogir awdurdodau i fabwysiadu dull strategol, rhyng-awdurdod o ddarparu cyrsiau, er mwyn hyrwyddo golff fel atyniad twristaidd yn ogystal â gweithgarwch chwaraeon neu hamdden.

Mynwentydd a Thir o Amgylch Eglwysi

3.36 Er y byddai eu defnyddio at ddibenion chwaraeon a hamdden yn amhriodol fel rheol, gall safleoedd eglwysi a mynwentydd ddarparu mannau gwyrdd tawel sydd â lefelau uchel o amwynder, yn enwedig mewn ardaloedd

trefol. Mae rhai ohonynt yn bwysig am resymau hanesyddol neu resymau cadwraeth natur. Gan fod cynhwysedd y mynwentydd presennol yn gyfyngedig, mae'n ofynnol nodi manau i'w defnyddio ar gyfer anghenion y dyfodol, a gall awdurdodau cynllunio lleol ddarogan y ddarpariaeth yn y dyfodol ar sail y data demograffig. Rhaid i fannau o'r fath fod yn hygyrch i bawb.

Cefn Gwlad

3.37 Yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 cyflwynwyd hawl statudol newydd, sef hawl y cyhoedd i gael mynediad i fynydd-dir, rhostir, gweundir, twyndir a thir comin cofrestredig ar gyfer hamdden awyr agored. Datganolwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i estyn yr hawl honno i gynnwys tir arfordirol. Mae Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi sefydlu Fforymau Mynediad Lleol i'w cynghori ar sut i wella mynediad y cyhoedd i dir ar gyfer hamdden a mwynhad yn yr awyr agored.

3.38 Mae mynediad i gefn gwlad yn bwysig i'r economi wledig, gwasanaethau cymunedol a thrafnidiaeth gyhoeddus, ac o'i gysylltu â hamdden, mae'n bwysig hefyd fel dull o wella iechyd a lles. Wrth geisio gwella mynediad i gefn gwlad, dylid rhoi sylw penodol i anghenion pobl yr effeithir ar eu symudedd, gan gynnwys rhai ag anableddau a rhai â theuluoedd ifanc. Dylid ystyried hefyd, pan fo modd, gwella cyfleoedd mynediad i aelodau o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a phreswylwyr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf nad ydynt, yn draddodiadol, yn defnyddio hawliau tramwy a chyfleoedd mynediad eraill.

Hygyrchedd a Hawliau Tramwy

3.39 Mae PPW yn mynnu bod prif ysgogwyr galw am deithio yn cael eu rheoli yng nghanol trefi neu'n agos at eu canol. Gallai cynigion i greu cyfleusterau newydd ar gyfer chwaraeon a hamdden, neu wella cyfleusterau presennol, achosi cynnydd yn y traffig, ac yn y galw am barcio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Wrth ystyried cynigion am gyfleusterau allai achosi lefelau uchel o alw am deithio, dylai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio dull dilyniannol o ddatblygu, gan leoli cyfleusterau o'r fath yng nghanol trefi pan fo modd, neu'n agos at y canol.

3.40 Gall llwybrau beiciau a llwybrau troed diogel sy'n osgoi ffyrdd prysur a pheryglon posibl eraill ddarparu cyfleoedd hamdden cadarnhaol ynddynt eu hunain, yn ogystal â'r posibilrwydd o gysylltu â choridorau ehangach o ofod agored, manau chwarae neu gyfleusterau hamdden, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae hyrwyddo cerdded a beicio yn gymorth i ymateb i faterion ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd, ac yn gyson ag amcanion cynaliadwyedd y llywodraeth, megis gwella iechyd, darparu llwybrau diogel i'r ysgol, gostwng nifer y teithiau mewn ceir ac annog twristiaeth.

3.41 Gallai'r rhwydwaith helaeth o hawliau tramwy ledled y wlad, o'i gynnal a'i ddiogelu yn briodol, ddarparu adnodd sylweddol ar gyfer hamdden a thwristiaeth. Dylai hawliau tramwy cyhoeddus gael eu gwarchod, a gwybodaeth amdanynt, a ddangosir ar Fapiau Diffiniol ac mewn datganiadau, gael ei hystyried wrth asesu ceisiadau am ganiatâd cynllunio. Mae'r ffurflen gais electronig yn cynnwys cwestiwn ynghylch bodolaeth hawliau tramwy, a ddylai fod o gymorth i'r awdurdodau nodi'r llwybrau yr effeithir arnynt.

3.42 Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn mynnu bod pob awdurdod lleol yn paratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, a ddylai, ar y cyd â'r CDLI, ddarparu ar gyfer defnyddio, cynnal a gorfodi hawliau tramwy presennol, gan gynnwys gwelliannau i'w diddordeb o ran natur. Dylai'r Cynllun Gwella hefyd ystyried y potensial ar gyfer estyn a gwella'r llwybrau lleol a phellter hir ar gyfer cerdded, beicio a marchogaeth ceffylau. Mewn rhai manau, yn enwedig mewn lleoliadau sy'n sensitif yn amgylcheddol, gall fod yn briodol gwella'r mynediad trwy ddarparu cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus unswydd.

3.43 Dylai'r awdurdod cynllunio lleol ddarparu canllawiau yn yr CDLI i sicrhau bod cyfleusterau chwaraeon a hamdden a manau agored yn hygyrch ar drafndiaeth gyhoeddus, ar droed ac ar feic. Pan nad oes modd gwneud hynny, dylai'r awdurdodau ystyried darparu gwasanaethau bws neu reilffordd addas, neu gyfleusterau parcio ar gyfer defnyddwyr chwaraeon neu hamdden, yn enwedig pan fo'r cyfranogwyr yn cludo'u cyfarpar eu hunain, sydd weithiau yn swmpus. Dylai manau chwarae plant gael eu cysylltu ag ardaloedd tai fel rheol gan lwybrau cyhoeddus a llwybrau beiciau, lle mae'n haws sicrhau diogelwch personol.

3.44 Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn ystyried hygyrchedd ar gyfer pobl yr amharwyd ar eu symudedd, neu sydd â rhyw amhariad arall, yn unol â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd, a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2006. Mae'r Ddeddf yn rhoi i unrhyw berson anabl yr hawl i fynediad cyfartal at gyfleusterau, nwyddau a gwasanaethau, tra bo'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb i bob anabl.

'Planning and Access for Disabled People - A Good Practice Guide' ODPM (2003)

'Planning for Inclusive Design (Access Statements) Final Interim Guidance' Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007)

'Planning, Building, Streets and Disability Equality - A guide to the Disability Equality Duty and the Disability Discrimination Act 2005 for Local Authority Departments Responsible for Planning, Design and Management of the Built Environment and Streets' Y Comisiwn Hawliau Anabledd (Awst 2006)

4. Rheoli Datblygu

4.1 Yn y canllawiau sy'n dilyn nodir rhai o'r materion y dylid eu cymryd i ystyriaeth gan ymgeiswyr ac awdurdodau cynllunio lleol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Dylunio

4.2 Dylid rhoi sylw yn gynnar i faterion dylunio wrth gynllunio cyfleusterau chwaraeon a hamdden a mannau agored newydd. Gall dylunio da helpu i greu gofodau sy'n ddiogel, yn hygyrch, yn hwylus i'w defnyddwyr ac yn ddeniadol, sy'n gwneud troseddu ac anhrefn yn anos, sy'n ffafrio dulliau teithio egnïol ac yn ychwanegu at y bioamrywiaeth, ac yn y tymor hir yn hwyluso rheolaeth a gwaith cynnal a chadw. Trwy wella dyluniad y cyfleusterau presennol, gellir cynyddu'r defnydd a wneir ohonynt a gwella ansawdd tir y cyhoedd. Mae'n arbennig o bwysig bod pobl ag amhariadau symudedd a synhwyraidd, ac anawsterau dysgu, a'r cyrff sy'n eu cynrychioli yn cyfrannu yn ymarferol at y broses o ddylunio a darparu cyfleusterau hamdden a mannau agored.

4.3 Mae'n ofynnol cyflwyno Datganiad Mynediad ynghyd â llawer o'r ceisiadau cynllunio, ac y mae'r Datganiadau hyn yn hanfodol er mwyn dangos bod egwyddorion dylunio cynhwysol, a mynediad i bawb, wedi eu hystyried o ddechreuad y broses o ddatblygu. Dylai'r cynnwys mewn datganiadau o'r fath adlewyrchu cyfranogiad cymunedau lleol, grwpiau mynediad a swyddogion mynediad yr awdurdodau lleol, a dylai nodi'r rhesymeg sy'n sail i'r cynnig datblygu.

Sŵn

4.4 Dylai awdurdodau cynllunio lleol asesu i ba raddau y mae'r sŵn a gynhyrchir gan weithgareddau hamdden a chwaraeon yn cydweddu â mathau eraill o ddefnydd. Dylid rhoi sylw arbennig i'r dewis o safleoedd a lleoliadau ar gyfer gweithgareddau o'r fath a dwysedd y defnydd a wneir ohonynt, er mwyn lleihau eu heffaith ar amwynder preswylwyr lleol ac ar yr ardal o amgylch. Mae angen i'r awdurdodau cynllunio lleol wrthbwysu cyfraniad cadarnhaol y gweithgarwch hamdden i'r ardal, a'r pleser a gaiff y defnyddwyr, yn erbyn yr effaith ar ansawdd yr amgylchedd lleol a'r niwsans posibl i bobl eraill.

4.5 Wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio am weithgareddau sydd â photensial i gynhyrchu lefelau sylweddol o sŵn dylai'r awdurdod cynllunio lleol ystyried pa mor aml y mae'n

'Access Statements' Y Comisiwn
Hawliau Anabledd (2004)

debygol y cynhyrchir y sŵn, ac ystyried yr ymyrraeth y mae'n debygol o achosi. Dylai awdurdodau cynllunio lleol hefyd ystyried effaith gronol gwahanol weithgareddau yn yr un ardal, ar y gymuned leol ac ar yr amgylchedd. Gellir atodi amodau rhesymol i ganiatadau cynllunio, fel ffordd o reoli allyriadau sŵn, yn enwedig yn ystod oriau anghymdeithasol.

4.6 Mae rhai gweithgareddau sy'n cynhyrchu sŵn yn meddu hawliau datblygu a ganiateir, o dan Ran 4 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, ac felly hwyrach na fydd gofyn iddynt gael caniatâd cynllunio, ar yr amod eu bod yn digwydd dros dro yn unig. Fodd bynnag, pan fo angen, gellir tynnu yn ôl yr hawliau datblygu a ganiateir trwy wneud cyfarwyddyd o dan Erthygl 4 o'r Gorchymyn.

Llifleuo

4.7 Mae llifleuo cyfleusterau chwaraeon a hamdden awyr agored yn caniatáu eu defnyddio yn fwy effeithlon trwy estyn yr oriau agor. Wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, fodd bynnag, dylai awdurdodau cynllunio lleol sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i amwynder y bobl sy'n byw gerllaw, ac nad effeithir yn annerbyniol ar gymeriad yr ardal, gan gynnwys ei hamwynder gweledol, nac ar nodweddion o bwysigrwydd i gadwraeth natur. Hwyrach y bydd angen gosod amodau ar unrhyw ganiatâd a roddir, er enghraifft trwy gyfyngu ar yr oriau pan ganiateir defnyddio'r goleuadau, neu gyfyngu ar amllder y defnydd ohonynt, neu trwy fynnu y gosodir lawroleuo, lloriau wedi'u goleuo, deunydd cysgodi neu fathau penodol o olau. Gall systemau goleuo modern wneud llawer i leihau gordanbeidrwydd a golau crwydr. Gallant fod yn fwy effeithlon o ran eu defnyddio ynni yn ogystal, yn enwedig pan ddefnyddir pŵer o ffynonellau adnewyddadwy, a dylid gosod systemau o'r fath os oes modd.

4.8 Trwy ddarparu goleuadau ar lwybrau troed trefol ac ar y prif lwybrau beiciau, gellir annog newid moddol yn y patrymau teithio trwy gydol y flwyddyn, a gwneud y llwybrau hyn yn fwy deniadol trwy wella diogelwch y defnyddwyr.

4.9 Gellir cael cyngor pellach ar llifleuo gan Gyngor Chwaraeon Cymru neu gan FIT.

'Floodlighting of Outdoor Sports Facilities' Fields in Trust (2000)

Hygyrchedd

4.10 Yn enwedig mewn ardaloedd sydd o werth ecolegol neu amgylcheddol, dylai awdurdodau cynllunio lleol roi ystyriaeth lawn i effaith cynyddu'r mynediad ar y nodweddion presennol ac ar y dulliau defnyddio presennol.

4.11 Gellir cynnal llawer math o chwaraeon a gweithgareddau hamdden ar safleoedd aml-ddefnydd, lle y gellir cynnwys cyfleusterau hefyd ar gyfer adloniant, manwerthu a hamdden. Mae cynigion mewn perthynas â chwaraeon a hamdden yn debygol o ysgogi nifer sylweddol o deithiau, a dylid eu cyflwyno ynghyd ag asesiadau teithio a gwybodaeth cyflawni, i roi sicrwydd y gellir cyrchu'r lleoliad ar drafnidiaeth gyhoeddus, ar feic ac ar droed. Byddai hyn yn berthnasol i rai cynigion am gyfleusterau hamdden, sinemâu, cyfleusterau cynadledda, stadia ac ysgolion.

4.12 Dylai awdurdodau cynllunio lleol geisio hyrwyddo a darparu gwell cyfleusterau i gerddwyr, beicwyr a marchogion, gan gynnwys pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl ddifreintiedig neu anabl. Gall cytundebau cynllunio fod yn ddefnyddiol mewn rhai achosion, i sicrhau bod llwybrau beiciau, llwybrau troed, storfeydd beiciau, ac weithiau cyfleusterau cawod a newid, yn cael eu darparu a'u cynnal.

Rheoli a Chynnal

4.13 Dylai'r ddarpariaeth ar gyfer rheoli a chynnal gofod agored cyhoeddus a chyfleusterau chwaraeon a hamdden, gan gynnwys llwybrau a lonydd sy'n hwyluso cerdded a beicio, fod yn ystyriaeth gan yr awdurdodau cynllunio lleol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae cynnal cyfleusterau a manau agored sy'n ddiogel a deniadol yn agwedd sylfaenol ar y rheolaeth hirdymor i leihau'r effeithiau amgylcheddol a chyrraedd amcanion Llywodraeth y Cynulliad o ddatblygu yn gynaliadwy a gweithredu ar faterion ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd.

4.14 Gall awdurdodau cynllunio lleol ystyried defnyddio cytundebau cynnal a rheoli ar gyfer tir hamdden a gofod agored neu dir amwynder. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos cyfleusterau hamdden a chwarae a ddarperir yn rhan o ddatblygiadau newydd ac na chânt eu trosglwyddo i'r awdurdod lleol.

Amodau Cynllunio a Rhwymedigaethau Cynllunio

4.15 Gellir defnyddio amodau a rhwymedigaethau cynllunio (Cytundebau Adran 106) i ddarparu gofod agored a chyfleusterau chwaraeon a hamdden, i ddiogelu a gwella cyfleusterau presennol ac i ddarparu ar gyfer eu rheoli. Mae PPW yn nodi na ddylid ceisio gosod rhwymedigaethau cynllunio ac eithrio pan fônt yn angenrheidiol i wneud cynnig yn dderbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir. Bydd yn gyfiawn fel rheol i awdurdod cynllunio lleol geisio rhwymedigaethau pan fo maint neu ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer hamdden yn annigonol neu dan fygythiad, neu pan fo datblygiad newydd yn cynyddu'r anghenion yn lleol. Bydd asesiad o'r anghenion ac archwiliad o'r cyfleusterau presennol, yn galluogi'r awdurdod cynllunio lleol i ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio i ddarparu budd i'r tir a/neu'r gymdogaeth ar ffurf man agored a chyfleusterau addas, yn enwedig mewn perthynas â datblygiadau tai, manwerthu a chyflogaeth. Dylid defnyddio polisiau'r CDLI i ddarparu'r fframwaith y ceisir rhwymedigaethau cynllunio oddi mewn iddo.

Tir Awdurdod Lleol

4.16 Ni chaiff awdurdod lleol gael gwared â gofod agored na'i adfeddu at ddiben arall oni fydd yn gyntaf wedi cyhoeddi hysbysiad o'i fwriad i wneud hynny, am ddwy wythnos yn olynol mewn papur newydd lleol, ac wedi ystyried unrhyw wrthwynebiadau. Pan fo awdurdodau lleol yn dymuno cael gwared â thir, maent o dan rwymedigaeth gyffredinol i geisio cael y pris gorau amdano.

4.17 Bydd gorchymyn prynu gorfodol sy'n cynnwys man agored fel y'i diffinnir yn y ddeddfwriaeth, neu unrhyw hawliau newydd ar y man agored, yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Cynulliad oni fydd Gweinidogion Cymru yn ardstio y rhoddir tir amgen addas yn gyfnewid neu nad yw'r tir, ar ôl ei feichio â'r hawliau arfaethedig, yn llai manteisiol nag ydoedd cyn hynny. Mewn achos lle y caffaelir gofod agored ac y rhoddir tir yn gyfnewid, rhaid i Weinidogion Cymru gael eu bodloni nad yw'r tir cyfnewid yn llai o ran arwynebedd na'r man agored presennol, a'i fod yr un mor fanteisiol i'r cyhoedd o ran ei faint, ei leoliad, ei werth fel amwynder, ansawdd ei dirwedd, ei hygyrchedd a'i fioamrywiaeth. Mae trefniadau tebyg yn gymwys i dir comin. Mewn rhai achosion nid oes angen darparu tir yn gyfnewid.

5. Diddymiad

5.1 Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn diddymu TAN (Cymru) 16 'Chwaraeon a Hamdden' (Mawrth 1998).

Atodiad A

Man Agored

Diffinnir man agored yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel tir a gynlluniwyd fel gardd gyhoeddus neu a ddefnyddir gan y cyhoedd at ddibenion hamdden neu dir sy'n fynwent anarferedig. At ddibenion y canllawiau hyn, dylid dehongli man agored i olygu unrhyw ofod agored o werth i'r cyhoedd, gan gynnwys nid yn unig tir, ond hefyd arwynebeddau o ddŵr megis afonydd, camlesi, llynnoedd a chronfeydd dŵr sy'n cynnig cyfleoedd pwysig ar gyfer chwaraeon, hamdden a thwristiaeth, ac a allant hefyd weithredu fel amwynder gweledol, ac sydd hwyrach yn bwysig o ran cadwraeth a bioamrywiaeth.

Gall fod gwerth fel amwynder yn perthyn i fannau sydd mewn perchnogaeth breifat er na fydd mynediad iddynt yn bosibl heb gytundeb y tirlfeddiannwr. Mae mannau megis gerddi domestig yn berthnasol, gan fod lleoedd sy'n amddifad neu'n brin o erddi yn debygol o fod yn fwy dibynnol ar y ddarpariaeth o fannau cyhoeddus.

Teipoleg Mannau Agored

Cynigir y deipoleg ganlynol o fannau agored fel sail ddefnyddiol ar gyfer paratoi Aseidiadau Mannau Agored a pholisïau cynlluniau datblygu. Defnyddir llawer o'r manau hyn at ddibenion lluosog, a dylid eu categoraiddio yn ôl defnydd sylfaenol neu brif ddefnydd y man dan sylw:

- i. **parciau a gerddi cyhoeddus** - gan gynnwys parciau trefol, parciau gwledig a gerddi ffurfiol;
- ii. **mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol** - gan gynnwys coetir, coedwigoedd trefol, prysgdir, glaswelltir a thir mynediad agored (e.e. mynydd-dir, rhostir, gweundir, twyndir, tir comin a gweirgloddiau), gwlyptir, tir gwastraff a thir diffaith agored a manau creigiog (e.e. clogwyni, chwareli a chloddfeydd), a thir arfordirol;
- iii. **coridorau gwyrdd** - gan gynnwys glannau afonydd a chamlesi, llwybrau troed, llwybrau beiciau, llwybrau ceffylau, tir rheilffordd anarferedig a hawliau tramwy; gall y rhain gysylltu gwahanol fannau o fewn a rhwng ardaloedd trefol. Gallant hefyd ffurfio rhan o rwydwaith sy'n cysylltu ardaloedd trefol, neu'n eu cysylltu â chefn gwlad o'u hamgylch.
- iv. **cyfleusterau chwaraeon awyr agored** (gydag arwynebau naturiol neu artiffisial, mewn perchnogaeth gyhoeddus neu breifat) - gan gynnwys cyrtiau tennis, lawntiau bowlio, lleiniau chwaraeon, cyrsiau golff, traciau athletau, meysydd chwarae ysgolion a sefydliadau eraill, a safleoedd chwaraeon awyr agored eraill. Y diffiniad cyfredol o lain chwaraeon yw maes chwarae sy'n fwy na 0.4 hectar o ran maint ac wedi ei farcio ar gyfer gemau tîm yn ystod y pum mlynedd diwethaf.
- v. **man gwyrdd amwynder** (yn fwyaf cyffredin, ond nid yn ddieithriad, mewn ardaloedd tai) - gan gynnwys manau hamdden anffurfiol (preifat neu'n agored i'r cyhoedd), lleiniau ymyl ffyrdd, manau gwyrdd mewn ac o amgylch safleoedd tai a mangreoedd eraill e.e. ysbytai, ysgolion a cholegau, safleoedd diwydiannol a busnes, gerddi a thiroedd domestig, a meysydd pentref;
- vi. **darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc** - gan gynnwys manau chwarae, manau ar gyfer chwarae ar olwynion, gan gynnwys sgleffrffyrddio, manau cicio pêl awyr agored a manau llai ffurfiol eraill (e.e. manau 'loetran', llochesau ardegau);
- vii. **rhandiroedd garddio, gerddi cymunedol, a ffermydd dinesig (trefol)** - diffinnir rhandir statudol fel rhandir nad yw ei arwynebedd yn fwy na 40 stang (1,000 metr sgwâr);
- viii. **mynwentydd a thir o amgylch eglwysi**;
- ix. **ardaloedd hygyrch o gefn gwlad ar ymylon trefi** - sydd yn union ar ffin ardal drefol neu wedi eu cysylltu ag ardal drefol;
- x. **mannau agored dinesig**, gan gynnwys sgwariau dinesig a sgwariau marchnad, promenadau a manau eraill sydd ag arwyneb caled yn bennaf, a gynlluniwyd ar gyfer cerddwyr. Gall y gofodau hyn gynnwys rhannau planedig a choed;
- xi. **dŵr** - gan gynnwys arwynebeddau awyr agored o ddŵr llanwol a dŵr croyw, pyllau, afonydd, camlesi, llynnoedd, cronfeydd dŵr, dociau a harbwrau.

Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried y deipoleg hon wrth asesu'r angen a'r ddarpariaeth gyfredol, ac wrth asesu'r gofynion yn y dyfodol am fannau agored a chyfleusterau hamdden.

Atodiad C

Y Gymdeithas Meysydd Chwarae Genedlaethol (NPFA)/Fields in Trust

Safonau Meincnod ar gyfer Chwaraeon a Chwarae Awyr Agored

'Planning and Design for Outdoor Sport and Play' (NPFA/FIT 2008)

Crynodeb

Yn 2006, comisiynodd Fields in Trust (FIT) ymchwilwyr annibynnol i gynnal arolwg o'r awdurdodau cynllunio lleol ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ledled y Deyrnas Unedig. Gan ddefnyddio canlyniadau'r arolwg hwnnw, argymhellodd FIT safonau meincnod i awdurdodau cynllunio ac eraill, i'w cynorthwyo i ddatblygu safonau lleol. Mae argymhellion FIT yn debyg i'r rheini yn y 'Safon Chwe Erw', ac y mae'n amcangyfrif bod 70% o'r awdurdodau cynllunio yn cyfeirio at, yn defnyddio, neu yn mabwysiadu argymhellion y 'Safon Chwe Erw' mewn cynlluniau datblygu.

Seiliwyd y Safonau Meincnod ar ganlyniadau arolwg yn Lloegr, lle mae'n amlwg bod modd eu cymhwyso. Byddant hefyd o gymorth i rai sy'n datblygu safonau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru.

Argymhellion Safonau Meincnod ar gyfer Chwaraeon Awyr Agored

Meintiau o Leiniau Chwarae

Safonau Meincnod ar gyfer Chwaraeon Llain

Math o Awdurdod Lleol	Safon Meincnod (hectar am bob 1000 o'r boblogaeth)
Trefol	1.15
Gwledig	1.72
Cyffredinol	1.20

Noder: Mae Safon Meincnod FIT yn sylweddol uwch ar gyfer ardaloedd gwledig, o gymharu ag ardaloedd trefol. Mae hyn yn adlewyrchu'r nifer uwch o aneddiadau gwasgaredig, pentrefi a threfi marchnad bychain yn yr ardaloedd gwledig a'u hanghenion gwahanol am gyfleusterau lleol. Ni ddylid eu dehongli i olygu bod lefel uwch o ddarpariaeth yn ofynnol ar gyfer pob anheddiad newydd mewn ardal wledig o gymharu ag aneddiadau cyfatebol mewn ardaloedd trefol. Rhaid ystyried pob anheddiad newydd yng ngoleuni ei amgylchiadau ei hunan ac yn ei ardal leol ei hunan.

Meintiau - Holl Chwaraeon Awyr Agored

Safonau Meincnod ar gyfer yr Holl Chwaraeon

Math o Awdurdod Lleol	Safon Meincnod (hectar am bob 1000 o'r boblogaeth)
Trefol	1.60
Gwledig	1.76
Cyffredinol	1.60

Noder: Er bod yr argymhellion ar gyfer awdurdodau 'trefol' ac ar gyfer yr holl awdurdodau yn gyfartal, nid camgymeriad yw hynny, gan fod yr argymhellion yn seiliedig ar gyfartaleddau canolrif, sef y gwerth canol mewn cyfres o adroddiadau.

Ansawdd - Chwaraeon Awyr Agored

Mae FIT yn argymhell defnyddio Safonau Ansawdd Perfformiad Technegol megis y rhai a gyhoeddir yn 'Design and Maintenance of Outdoor Sports Facilities' ar gyfer lleiniau yn ogystal â chyfleusterau awyr agored eraill, sef yn benodol, criced, bowlio a croquet.

Neu gellir dewis safonau technegol defnyddiol eraill, megis y rhai a baratior gan Sport England, neu gan gyrff llywodraethu'r chwaraeon neu gan sefydliadau galwedigaethol fel yr Institute of Groundsmanship (IoG) neu'r Sports and Play Construction Association (SAPCA).

Gall methodolegau sy'n seiliedig ar arsylwi fod yn ddefnyddiol fel man cychwyn sylfaenol, er na ddylent gymryd lle'r arferion gorau a ddarperir trwy wneud asesiadau technegol. Dau ddull y gellid eu hystyried yw hwnnw a ddarperir ym mhecyn cymorth electronig Sport England, a'r 'cod goleuadau traffig' a ddarperir gan y Gymdeithas Bêl-droed.

Hygyrchedd - Lleiniau Chwarae

Dylai lleiniau chwarae fod ar gael o fewn 1.2 km i bob annedd yn y prif ardaloedd preswyl.

Hygyrchedd - Chwaraeon Awyr Agored eraill

- Athletau - un trac synthetig gyda llifoleuadau am bob 250,000 o bobl sy'n byw o fewn pellter taith car o 30 munud (45 munud mewn ardaloedd gwledig) o'r lleoliad arfaethedig
- Tennis - cyrtiau tennis cymunedol o fewn pellter taith 20 munud (ar droed mewn ardaloedd trefol, mewn car mewn ardaloedd gwledig)
- Bowlio - Un lawnt o fewn pellter taith 20 munud (ar droed mewn ardaloedd trefol, mewn car mewn ardaloedd gwledig)

Argymhellion Safonau Meincnod ar gyfer Chwaraeon Awyr Agored

Meintiau - Pob Gofod Chwarae

Gofod Chwarae i Blant	Safon Meincnod (hectar am bob 1,000 o'r boblogaeth)
Gofod Chwarae Dynodedig â Chyfarpar	0.25
Gofod Chwarae Anffurfiol	0.55
Gofod Chwarae i Blant	0.80

Meintiau Ansawdd ar gyfer Man Chwarae Plant

Gall awdurdodau lleol osod eu safonau meincnod ansawdd eu hunain gan ddefnyddio Offeryn Asesu Ansawdd y Children's Play Council. Ni fyddai hynny yn pennu mesur absoliwt, ond yn hytrach deisyfiad rhesymol a meincnodau y gellid mesur ansawdd unrhyw fan chwarae plant presennol gyferbyn â hwy. Offeryn arall, a argymhellir gan y Gymdeithas Rhagoriaeth Mewn Gwasanaeth Cyhoeddus yw 'Play Value Assessment for Playgrounds' gan FIT ei hunan.

Safonau Meincnod Hygyrchedd ar gyfer Gofod Chwarae i Blant

Math o Ofod	Meini Prawf Pellter (metrau)	
	Pellter Cerdded	Pellter Llinell Syth
Mannau lleol ar gyfer chwarae neu 'ofodau carreg drws' ar gyfer chwarae a hamdden anffurfiol	100	60
Mannau chwarae lleol â chyfarpar neu a dirluniwyd, ar gyfer chwarae a hamdden anffurfiol	400	240
Mannau chwarae cymdogaeth â chyfarpar ar gyfer chwarae a hamdden anffurfiol gyda darpariaeth i bobl ifanc	1000	600